GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

**Tîm Arbenigol Gofal Lliniarol yn yr Ysbyty**

***Gwybodaeth i Gleifion a Gofalwyr***

**EIN RÔL**

Rydym yn dîm amlbroffesiynol, sy'n gweithio mewn rôl ymgynghorol ar draws holl ysbytai acíwt Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Ein nod yw darparu gwasanaeth sy'n gwella ansawdd bywyd cleifion, yn hwyluso dewis cleifion, ac yn trin pob unigolyn ag urddas a pharch.

Gall y tîm:

- Rhoi cyngor i dimau wardiau ynglŷn â thriniaeth ar gyfer symptomau cymhleth sy'n ymwneud â salwch (e.e poen, bod yn sâl, diffyg anadl, ac ati)
- Darparu cefnogaeth emosiynol.
- Cefnogi'r gwaith cynllunio cymhleth o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty
- Cyfeirio at asiantaethau am gyngor ar fudd-daliadau.
- Cysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a allai eich helpu, er enghraifft:
    - Timau Gofal Lliniarol Cymunedol
    - Ffisiotherapydd
    - Dietegydd
    - Gweithiwr Cymdeithasol
    - Therapydd Galwedigaethol
    - Meddyg Teulu a Gwasanaeth Nyrsio Cymunedol
    - Sefydliadau Gwirfoddol

Caplan

**THERAPIAU CYFLENWOL**

Mae Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd yn gweithio o fewn y tîm sy'n gallu darparu therapïau cyflenwol i gleifion gofal lliniarol tra byddant yn aros yn yr ysbyty. *Mae hyn yn berthnasol i gleifion a nodir gan dimau nyrsio neu dimau meddygol Gofal Lliniarol, yn dilyn atgyfeiriad gan y timau ward.* Gellir darparu gwasanaethau:

- Aromatherapi
- Tylino Pen Indiaidd
- Tylino
- Reiki
- Ymlacio a Rheoli Pryder

- Tai Chi
- Y Dechneg M

I gael rhagor o wybodaeth am y gwasanaethau hyn, gofynnwch i aelod o'r tîm am gopi o'n taflen wybodaeth therapi cyflenwol.

## CYFEIRIADAU AT Y GWASANAETH

***Mae'r tîm gofal lliniarol yn darparu gofal arbenigol i bobl sydd â salwch na ellir ei wella. Ein nod yw eich cefnogi chi a'ch teulu, gwella ansawdd eich bywyd a'ch gwneud mor gyfforddus â phosibl. Mae'r tîm yn cynnwys meddyg arbenigol a thîm nyrsio sy'n darparu gwasanaeth cynghori ac yn gweithio ochr yn ochr â'r tîm amlbroffesiynol sy'n gofalu amdanoch.***

I gyfeirio at ein tîm, rhaid i dîm meddygol y claf lenwi'r ffurflen e-atgyfeirio a chynnwys gwybodaeth berthnasol yn ôl yr angen.

Er nad ydym yn cymryd cyfrifoldeb am y gwaith o gydgysylltu gofal, rydym yn gweithio'n agos gyda'r timau meddygol a’r timau nyrsio a gweithwyr proffesiynol eraill. Efallai na fydd angen i ni fod yn rhan o'r broses trwy gydol yr amser y bydd y claf yn aros yn yr ysbyty.

## RHIFAU CYSWLLT

**<u>Timau Ysbyty (Dydd Llun i Ddydd Gwener 9.00am i 5.00pm)</u>**

| | |
|---|---|
| Ysbyty Brenhinol Gwent | 01633 234934 |
| Ysbyty Neuadd Nevill | 01873 732777 |
| Ysbyty Ystrad Fawr | 01443 802232 |
| Ysbyty Athrofaol y Faenor | 01633 234934 |

*Mae gwasanaethau y tu allan i oriau ar gael ar gyfer y tîm Gofal Lliniarol a gellir cael gafael arnynt trwy weithiwr Gofal Iechyd proffesiynol.*

**<u>Timau Hosbis/Gofal Lliniarol Cymunedol</u>**

| | |
|---|---|
| Gofal Hosbis Dewi Sant | 01633 851051 |
| Uned Cleifion Mewnol Dewi Sant/ Nyrs y Tu Allan i Oriau | 01633 973980 |
| Hosbis y Cymoedd | 01495 717277 |
| Nyrsys MacMillan (Powys) | 01874 712445 |
| OOH Powys (Shropdoc) | 01743 454912 |

### Galw Iechyd Cymru - 111

Wrth ddeialu 111, ar gyfer cleifion yn eu dyddiau/wythnosau olaf o fywyd sydd angen gofal brys, bydd pwyso 0 yn helpu cleifion a gofalwyr i gael ateb cyflymach i'w galwad. {B>ON:<B} Dylid cysylltu â'ch tîm Gofal Lliniarol yn y lle cyntaf.

**RYDYM YN CROESAWU EICH SYLWADAU!**

Mae clywed barn cleifion a theuluoedd am y gwasanaeth gofal lliniarol y maent wedi ei dderbyn yn ddefnyddiol bob amser.

Gweler isod god QR ar gyfer arolwg gofal lliniarol cenedlaethol. Gofynnwn yn garedig i chi lenwi’r holiadur, ond cofiwch mai holi am y gwasanaeth gofal lliniarol mae’r holiadur ac nid am eich gofal ar y ward.

Diolch!